Department for Business, Energy & Industrial Strategy

1 Mai 2019

**<u>Contractau Gwahaniaeth (CfD): Hysbysiad Cyllideb y Trydydd Cylch Dyrannu</u>**

**Oddi wrth: Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol**

**At: National Grid Electricity System Operator Limited, sef y Corff Cyflawni EMR**

Mae'r hysbysiad hwn wedi'i roi yn unol â Rheoliad 11 o Reoliadau Contractau Gwahaniaeth (Dyrannu) 2014 (fel y'u diwygiwyd). Mae copi o'r rheoliad hwn wedi'i gynnwys yn atodlen yr hysbysiad hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i drydydd Cylch Dyrannu Contractau Gwahaniaeth (CfD) sy'n cychwyn ar 29 Mai 2019, fel y sefydlwyd gan yr Hysbysiad Cylch Dyrannu a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 1 Mai 2019.

Dylai'r hysbysiad hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r nodyn sy'n cyd-fynd ag ef.

**Cyllideb Gyffredinol Trydydd Cylch Dyrannu CfD**

Y Gyllideb Gyffredinol[1] sy'n gymwys yn y Cylch Dyrannu CfD hwn yw:

- £65 miliwn[2];
- 6GW.[3]

Blynyddoedd Cyflawni[4] y Cylch Dyrannu hwn yw:

- 2023/24;
- 2024/25.

Blynyddoedd prisio y Cylch Dyrannu hwn yw:

- 2025/26;
- 2026/27.

Yn y Cylch Dyrannu hwn, gallai hyd at £65 miliwn (cyfanswm y taliadau cymorth) gael ei dalu o dan CfDs i gynhyrchwyr cymwys sy'n gwneud cais am brosiectau sydd â Dyddiadau Targed ar gyfer Comisiynu yn y naill Flwyddyn Gyflawni neu'r llall.

---

[1] 'Cyllideb Cyffredinol' yn unol â'r diffiniad o 'Overall Budget' yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Contractau Gwahaniaeth (Dyrannu) 2014, fel y'u diwygiwyd.
[2] yn ôl prisiau 2011/12.
[3] Y mae'r Adran wedi gofyn am gymeradwyaeth cymorth gwladwriaethol ar ei gyfer.
[4] 'Blwyddyn Gyflawni' yn unol â'r diffiniad o 'Delivery Year' yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Contractau Gwahaniaeth (Dyrannu) 2014, fel y'u diwygiwyd.

Mae ceisiadau CfD yn creu effaith ar y gyllideb ariannol nid yn unig yn y Flwyddyn Gyflawni a ddewisir ond hefyd ym mhob Blwyddyn Gyflawni a phob blwyddyn brisio wedyn. Os eir dros y gyllideb ariannol mewn unrhyw Flwyddyn Gyflawni, bydd y cais cyntaf sy'n mynd dros y gyllideb ariannol yn cael ei wrthod a bydd y Flwyddyn Gyflawni yr oedd y cais yn ymwneud â hi yn cael ei chau fel bod ceisiadau dilynol am y Flwyddyn Gyflawni honno hefyd yn cael eu gwrthod (heblaw y bydd ceisiadau hyblyg yn cael eu hystyried).

Os eir dros y cap cyffredinol ar gapasiti,[5] bydd y ddwy Flwyddyn Gyflawni yn cael eu cau i'r cais cyntaf sy'n mynd dros y capasiti uchaf, sef 6GW, ac i bob cais dilynol, ni waeth pa Flwyddyn Gyflawni y cyfeirir ati yn y cais (heblaw y bydd ceisiadau hyblyg yn cael eu hystyried).

Dyma'r technolegau sy'n gymwys yn y Cylch Dyrannu Pot 2 hwn:

- Technolegau Trosi Uwch
- Treulio Anaerobig (> 5MW)
- Biomas Penodol gyda CHP
- Geothermol
- Gwynt ar y Môr
- Gwynt ar Ynysoedd Pellennig (> 5MW)
- Ffrwd Lanw
- Tonnau

**Prisiau Taro Gweinyddol**

Dyma'r Prisiau Taro Gweinyddol sy'n gymwys yn y Cylch Dyrannu hwn:

**Tabl 1: Prisiau Taro Gweinyddol CfD (£/MWh, ym mhrisiau 2012)**

| Math o Dechnoleg | Prisiau taro 2023/24 | Prisiau taro 2024/25 |
|---|---|---|
| **ACT** | **113** | **111** |
| **AD (> 5MW)** | **122** | **121** |
| **Biomas Penodol gyda CHP** | **121** | **121** |
| **Geothermol** | **129** | **127** |
| **Gwynt ar y Môr** | **56** | **53** |

[5] Sydd â'r ystyr a roddir i 'overall capacity cap' ym mharagraff (b) o'r diffiniad o 'Overall Budget' yn Rheoliad 2(1) o Reoliadau Contractau Gwahaniaeth (Dyrannu) 2014, fel y'u diwygiwyd.

| | | |
|---|---|---|
| **Gwynt ar Ynysoedd Pellennig (> 5MW)** | **82** | **82** |
| **Ffrwd Lanw** | **225** | **217** |
| **Tonnau** | **281** | **268** |

**Defnyddio Uchafsymiau neu Isafsymiau**

Ni fydd isafsymiau nac uchafsymiau yn y trydydd Cylch Dyrannu.

**Prosiectau Gwynt ar y Môr a Gyflawnir Fesul Cyfnod**

Caniateir i Unedau Gwynt ar y Môr CfD sydd heb fod yn fwy na 1500MW o ran capasiti gael eu cyflawni fesul cyfnod. Caniateir i'r cyfnodau ar ôl y cyfnod cyntaf osod Dyddiadau Targed ar gyfer Comisiynu sydd hyd at ddwy flynedd ar ôl y Flwyddyn Gyflawni derfynol (blynyddoedd prisio 2025-26 i 2026-27). Bydd y Corff Cyflawni'n prisio'r prosiectau hyn dros y blynyddoedd prisio yn ychwanegol at y Blynyddoedd Cyflawni. Caiff cyfanswm effaith y prosiectau hyn ar y gyllideb yn y prisiad terfynol ei asesu fe pe bai'r prosiectau'n gwbl weithredol, ni waeth pa bryd yn ystod y flwyddyn honno y gosodwyd y Dyddiad Targed ar gyfer Comisiynu'r cyfnodau olaf.

**Ailosod Sail Cyllidebau CfD**

Mae'r gyllideb ariannol a welir yma wedi'i chyfrifo mewn termau real ar sail lefel brisiau £2011/12. Er mwyn trosi hyn yn sail brisiau fwy diweddar, mae modd defnyddio mynegai CPI.

O gofio bod y prisiau taro wedi'u cyhoeddi yng ngwerthoedd £2012, bydd y llywodraeth yn chwyddo'r cyllidebau a welir yma yn ôl chwyddwr CPI[6,7] ar sail prisiau £2012, cyn i'r Grid Cenedlaethol brisio'r cynigion (a gyflwynir yng ngwerthoedd £2012) yn erbyn y gyllideb sydd ar gael.

Y chwyddwr y byddwn yn ei ddefnyddio yw 1.0193. Mae hyn wedi'i gael drwy ddefnyddio'r fformiwla a ganlyn:

$$\textit{Addasydd CPI}_{\pounds 2011/12 \rightarrow \pounds 2012} = \textit{CyfartaleddCPI}_{2012} / \textit{CyfartaleddCPI}_{2011/12}$$

[6] Sylwch fod gwerthoedd y mynegai CPI yn dod o dan Bolisi Diwygio'r SYG ac y gallent newid yn y dyfodol.
[7] Wedi'i gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/timeseries/d7bt

Mae hyn yn arwain at gyllideb o £65 miliwn[8] yng ngwerthoedd £2012.

Mae hefyd yn bosibl trosi'r cyllidebau yn brisiau misol cyfredol. Dangosir y fformiwla hon isod.

$$\textit{Addasydd CPI}_{\pounds 2011/12 \rightarrow \pounds cyfredol} = CPI_{cyfredol} / CyfartaleddCPI_{2011/12}$$

Er mwyn i'r rhanddeiliaid drosi cyllideb £2011/12 i'r sail brisiau fwyaf diweddar sydd ar gael (sef Chwefror 2019 adeg cyhoeddi hyn), dylid defnyddio'r chwyddwr a ganlyn: 1.1335.

**LLOFNOD**

Ashley Ibbett, Cyfarwyddwr Trydan Glân, Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Dros ac ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol

**DYDDIEDIG**: 1 Mai 2019

[8] Wedi'i dalgrynnu i'r £5 miliwn agosaf.

Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

**Atodlen i'r Hysbysiad Cyllideb ar gyfer Cylch Dyrannu CfD**

Rheoliadau Contractau Gwahaniaeth (Dyrannu) 2014 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 11.

**"Budget notices**

11. (1) The Secretary of State must by notice ("a budget notice") specify—

(a) the overall budget which is available for each delivery year applicable to an Allocation Round; and

(b) the administrative strike prices applicable to applications in an Allocation Round.

(2) The Secretary of State may in a budget notice specify any of the following—

(a) budgets which are reserved for the descriptions of applications specified in the notice ("minima");

(b) maximum budgets which apply to the descriptions of applications specified in the notice ("maxima");

(c) a division of the overall budget such that a different part ("pot") of the overall budget applies to the description of applications specified in the notice.

(3) Where maxima or minima are specified, they may be expressed as—

(a) a sum of money;

(b) an amount of capacity of electricity generation; or

(c) a combination of (a) and (b).

(4) Where—

(a) the overall budget is expressed as a sum of money; and

(b) that sum is stated by reference to a price which is not current at the date of the budget notice,

the budget notice must include a factor which, when applied to that sum, converts that sum into a price which is current at that date.

(5) A budget notice must—

(a) be given to the delivery body;

(b) identify the Allocation Round to which the budget notice applies; and

(c) be given no later than 10 working days before the commencement date of the Allocation Round."

**DIWEDD**